

## Tasg 3

# Stori

1. Dyma ddechrau'r stori eto, ond mae angen atalnodi'r darn yn gywir.  
Atalnodwch y darn yn gywir.

Yna, argraffwch y darn gwreiddiol a chymharwch eich gwaith chi gyda'r darn hwnnw.

Awtsh gwaeddodd erin wrth iddi syrthio'n galed ar y ddaear, wrth geisio rhwystro'r bêl rhag mynd i gefn y rhwyd.

Gôl gwaeddodd rhids a matt.

Awtsh cwynodd erin eto, gan rwbio'i choes.

Beth sy'n bod gofynnodd Lili, gan gerdded tuag at erin

Dw i wedi baglu dros rywbeth caled yn y ddaear eglurodd erin.

rhedodd y ddau fachgen a lili at erin

bobl bach bocs meddai erin a defnyddiodd ei dwylo i frwsio'r pridd oddi ar wyneb y peth caled oedd yn y pridd hen focs! edrychwch. Tybed beth sy tu mewn iddo

ar hynny agorodd y bocs a safodd y pedwar ffrind yn hollol lonydd fel pedwar delw wrth i erin godi

llond dwrn o ddarnau aur a gadael iddyn nhw lifo yn ôl i mewn i'r bocs fel rhaeadr aur.

Aur gofynnodd lili

darnau arian gofynnodd Matt

dan ni'n gyfoethog chwaraeddodd Rhids gan brancio o gwmpas fel ebol ifanc. dan ni'n gyfoethog

sh rhybuddiodd Erin. rhaid i ni fod yn dawel am hyn dydyn ni ddim isio i bawb w'bod ein bod ni

wedi ffeindio rhywbeth gwerthfawr

Ydy o'n werthfawr gofynnodd Matt mae'r bocs yn fudr iawn

Ewch i'r dudalen nesaf.

2. Mae deialog yn digwydd mewn stori fel arfer. Felly, rhaid defnyddio dyfynodau (“ ”) ac fel arfer rhaid dangos pwy sy’n siarad.

Rhestrwch y geiriau sy’n dangos pwy sy’n siarad yn y darn, e.e.

*gwaeddodd Erin  
gofynnodd Matt*

Pan fyddwch chi’n ysgrifennu stori, ceisiwch ddefnyddio rhai o’r ffurfiau hyn – yn lle defnyddio gormod o “dywedodd” a “meddai”.

Ysgrifennwch olygfa arall yn y stori yma gan ddefnyddio digon o ddeialog. Dyma’r sefyllfa:

- Matt a Rhids yn y siop sglodion yn prynu swper.
- Y ddau’n cerdded adre, yn sôn am beth maen nhw’n mynd i’w wneud gyda’r arian.
- Y ddau’n cyrraedd tŷ Matt; Matt yn gwahodd Rhids i ddod i mewn i chwarae gêm cyfrifiadur.
- Y ddau’n chwarae’r gêm ac yn mwynhau.
- Cnoc ar y drws – Matt yn mynd i agor y drws.
- Plismon a phlismones yno.
- Matt, y plismon a’r blismones yn siarad.